



ENTRE**COMP**EDU

Modiwl 2:

**Cynllunio a threfnu amgylcheddau dysgu
entrepreneuraidd**

Co-funded by the
Erasmus+ Programme
of the European Union



EntreCompEdu is co-funded by the Erasmus+ Programme of the European Union. The European Commission support for the production of this publication does not constitute an endorsement of the contents which reflects the views only of the authors, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein.



Co-funded by the
Erasmus+ Programme
of the European Union

Mae'r modiwl hwn yn disgrifio'r ffactorau hynny y mae angen eu hystyried wrth gynllunio a threfnu amgylcheddau dysgu entrepreneuriaidd. Mae'n trafod dulliau o gynllunio, natur ryngddisgyblaethol dysgu entrepreneuriaidd, ynghyd â materion moesegol a materion yn ymwneud â chynaliadwyedd. Trafodir hefyd yr heriau sy'n gysylltiedig ag ysgrifennu nodau, amcanion a chanlyniadau dysgu entrepreneuriaidd. Yn olaf, mae'r modiwl yn awgrymu'r modd i greu amgylchedd dysgu ysgogol. Mae hyn yn cynnwys defnydd creadigol o ofod, amser, cynllun yr ystafell ddosbarth ac adnoddau eraill i hwyluso dysgu entrepreneuriaidd.

Mae tair dogfen 'Mynd yn Ddyfnach' yn cyd-fynd â'r modiwl hwn:

Mynd yn Ddyfnach 2.1 Nodau, amcanion a deilliannau dysgu entrepreneuriaidd

Mynd yn Ddyfnach 2.2 Cynllunio prosiect entrepreneuriaidd

Mynd yn Ddyfnach 2.3 Gwneud y gorau o ofodau dysgu ac adnoddau eraill



2.1 Cynllunio nodau a deilliannau dysgu entrepreneuriaidd sy'n foesebol ac yn gynaliadwy.....	7
2.1.1 Cynllunio nodau a deilliannau dysgu entrepreneuriaidd.....	7
Defnyddio cysoni adeiladol	7
Ffigur 2.1. Egwyddorion Cysoni Adeiladol	Error! Bookmark not defined.
Gosod nodau, amcanion neu ddeilliannau dysgu arfaethedig	8
Mynd yn Ddyfnach 2.1: Nodau, amcanion a deilliannau dysgu Error! Bookmark not defined.	
Defnyddio EntreComp i osod nodau neu ddeilliannau dysgu arfaethedig	10
Defnyddio EntreComp i fapio neu gynllunio gweithgaredd dysgu penodol.....	10
Ffig 2.2 Blociau Adeiladu EntreComp	10
Defnyddio EntreComp fel geiriadur o ddeilliannau dysgu.....	11
Enghraifft ymarferol: Ein Gardd Gymunedol.....	14
Blwch 2.1. Nodau ac amcanion entrepreneuriaidd	15
Addasu dysgu entrepreneuriaidd i gyd-destunau pwnc gwahanol:.....	15
Cysoni asesiadau â chymwyseddau entrepreneuriaidd	15
2.1.2 Dylai cynllunio roi ystyriaeth i gamau gweithredu moesebol a chynaliadwy.....	18
Ymwybyddiaeth foesebol.....	18
Blwch 2.2 Strategaethau ymarferol i feithrin ymwybyddiaeth foesebol	19
Blwch 2.3. Enghreifftiau o Ddatganiadau Cenhadaeth.....	20
Cynaliadwyedd.....	20
Tabl 2.1. Awgrymiadau ar gyfer cynaliadwyedd	21
Tasg hyfforddi LoopMe 2.1: Dod o hyd i ysbrydoliaeth yn eich gwaith cynllunio	22



2.2 Gwneud cysylltiadau	Error! Bookmark not defined.
2.2.1. Ysgol gynradd – creu thema drawsgwricwlaidd.....	24
Mapio'r cysylltiadau â meysydd pwnc gwahanol (dolenni i gymwyseddau EntreComp mewn cromfachau).....	27
DATBLYGIAD PERSONOL.....	27
Y CELFYDDYDAU	27
CYFATHREBU AC IAITH.....	27
MATHEMATEG.....	27
Y DYNIAETHAU.....	27
GWYDDONIAETH	27
2.2.2 Pwnc ysgol uwchradd – Hanes	28
Tabl 2.2. Enghreifftiau o'r modd y mae cymwyseddau entrepreneuriaidd yn cysylltu â Hanes.....	30
2.2.3. Addysg alwedigaethol – prentisiaeth.....	31
Tabl 2.3. Enghreifftiau o weithgarwch trin gwallt a chymwyseddau entrepreneuriaidd.....	32
Pwnc fforwm LoopMe 2.2: Dysgu Seiliedig ar Broblemau.....	33
Tasg hyfforddi LoopMe 2.2: Mapio dolenni wrth gynllunio.....	33
Mynd yn Ddyfnach 2.2	Error! Bookmark not defined.
2.3 Creu amgylchedd dysgu entrepreneuriaidd grymusol.....	35
Datblygu ein dealltwriaeth o'r hyn a all fod yn amgylchedd dysgu	35
Datblygu'r modd yr ydych yn defnyddio amser a gofod yn eich amgylcheddau dysgu	37
Tabl 2.4. Defnydd creadigol o amser a gofod i gefnogi dysgu entrepreneuriaidd.....	38
A allwch ail-lunio eich amgylcheddau dysgu eich hun?	39
Pwnc fforwm LoopMe 2.3: Rhannwch eich enghreifftiau eich hun.....	Error! Bookmark not defined.
Tasg hyfforddi LoopMe 2.3: Ymarfer tasgu syniadau	Error! Bookmark not defined.



Crynodeb Modiwl

Cynllunio a threfnu dysgu entrepreneuriaid	
Nodau	<ul style="list-style-type: none"> • Amlinellu'r ffactorau i'w hystyried wrth gynllunio dysgu entrepreneuriaid.
Disgrifiad	<p>Mae'r modiwl hwn yn disgrifio'r ffactorau hynny y mae angen eu hystyried wrth gynllunio a threfnu amgylcheddau dysgu entrepreneuriaid. Mae'n trafod dulliau o gynllunio, natur ryngddisgyblaethol dysgu entrepreneuriaid, ynghyd â materion moesegol a materion yn ymwneud â chynaliadwyedd. Trafodir hefyd yr heriau sy'n gysylltiedig ag ysgrifennu nodau, amcanion a chanlyniadau dysgu entrepreneuriaid. Yn olaf, mae'r modiwl yn awgrymu'r modd i greu amgylchedd dysgu ysgogol. Mae hyn yn cynnwys defnydd creadigol o ofod, amser, cynllun yr ystafell ddosbarth ac adnoddau eraill i hwyluso dysgu entrepreneuriaid.</p>
Deilliannau dysgu arfaethedig	<p>Erbyn diwedd y modiwl hwn, dylech:</p> <ul style="list-style-type: none"> • trafod y ddadl ynghylch ysgrifennu nodau, amcanion a deilliannau dysgu entrepreneuriaid • myfyrio ar y modelau cynllunio a damcaniaethau gwahanol sy'n sail i ddysgu entrepreneuriaid • egluro pam y dylai gwaith cynllunio entrepreneuriaid fod yn foesegol ac yn gynaliadwy • nodi'r potensial ar gyfer cynllunio cyfleoedd dysgu entrepreneuriaid ledled y cwricwlwm • disgrifio'r ffactorau i'w hystyried wrth greu amgylchedd sy'n gweddu i ddysgu entrepreneuriaid.
Prif ddulliau dysgu	<ul style="list-style-type: none"> • Darllen dan arweiniad • Arsylwi ar fideos • Ymarferion creadigol • Gweithgareddau hunangyfeiriedig • Myfyrio ar brofiad personol
Cynnwys	<p>2.1 Cynllunio nodau a deilliannau dysgu entrepreneuriaid sy'n foesegol ac yn gynaliadwy</p> <ul style="list-style-type: none"> • Beth yw'r modelau a'r damcaniaethau sy'n sail i'r gwaith cynllunio ar gyfer dysgu entrepreneuriaid? • Sut yr ydych yn ysgrifennu nodau a deilliannau dysgu entrepreneuriaid? • Sut y dylai gwaith cynllunio roi ystyriaeth i weithredoedd moesegol a chynaliadwy?



	<p>2.2 Gwneud cysylltiadau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Beth yw natur ryngddisgyblaethol dysgu entrepreneuriaidd? • Sut yr ydych yn bwriadu cysylltu dysgu yn yr ystafell ddosbarth â dysgu yn y byd go iawn? <p>2.3 Creu amgylchedd dysgu entrepreneuriaidd grymusol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sut yr ydych yn gwneud y defnydd gorau o amser, gofod, cynllun yr ystafell ddosbarth ac adnoddau eraill i hwyluso dysgu entrepreneuriaidd? <p>☒</p>
Asesu	Ymarferion hunanasesu
Amser dangosol	5 awr

CYFLWYNIAD MODIWL

GWYLIWCH: Dyma gyflwyniad byr i Fodiwl 2 - Cynllunio a threfnu dysgu entrepreneuriaidd

Gwyliwch ar y ddolen hon:

<https://www.youtube.com/embed/egf0eJy0jnl?feature=oembed>



2.1 Cynllunio nodau a deilliannau dysgu entrepreneuriaid sy'n foesebol ac yn gynaliadwy

2.1.1 Cynllunio nodau a deilliannau dysgu entrepreneuriaid

Sut yr ydych yn ystyried cynllunio? A yw cynllunio ar gyfer dysgu entrepreneuriaid yn wahanol i gynllunio nodweddiadol ar gyfer gwersi ac unedau?

Lle bynnag y byddwch yn addysgu, y tebygrwydd yw eich bod yn gorfod cynllunio gwersi, modiwlau a/neu gynlluniau gwaith. Neu efallai eich bod yn cael cynlluniau i'w haddasu. Beth bynnag fo eich cyd-destun, sut yr ydych yn ystyried cynllunio?

Os meddyliwch am eich cynlluniau gwersi ar gyfer yr wythnos neu ddwy nesaf, a oes yna gyfleoedd ynddynt i gynnwys cymwyseddau entrepreneuriaid penodol, er enghraifft annog y myfyrwyr i adnabod cyfleoedd neu i amlygu ymdeimlad o fenter?

Mae'n bwysig pwysleisio y dylai cynllunio ar gyfer dysgu entrepreneuriaid ganolbwyntio ar roi cyfleoedd i fyfyrwyr ddangos eu cynnydd tuag at gyflawni cymwyseddau entrepreneuriaid. Yn yr un modd â gwersi eraill, dylai fod yna gysondeb rhwng nodau neu ddeilliannau dysgu arfaethedig, gweithgareddau ac asesiadau.

Defnyddio cysoni adeiladol


Mae cyngor addysgu cyffredin yn gweld cynllunio ar ffurf cyfres o gamau, sy'n cael eu crynhoi gan yr egwyddor 'cysoni adeiladol'.¹ Mae hyn yn awgrymu y dylid rhannu'r amcanion dysgu â'r dysgwyr, gosod gweithgareddau i'w galluogi i gyflawni'r amcanion hynny, a dewis strategaethau asesu priodol.

¹ Biggs, J. (2003) *Aligning Teaching & Assessment to Curriculum Objectives, (Imaginative Curriculum Project, LTSN Generic Centre)*.



Rhannu amcanion dysgu entrepreneuriaidd neu'r deilliannau arfaethedig: yr hyn y bydd y myfyrwyr yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn ei wneud trwy gyflawni'r gweithgareddau

Rhannu Cysoni asesiadau: i ddarparu adborth ar y cynnydd gwirioneddol tuag at gyflawni'r deilliannau dysgu entrepreneuriaidd arfaethedig



Creu g weithgareddau addysgu a dysgu priodol: mae'r rhain yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr ddangos eu bod wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu entrepreneuriaidd arfaethedig

Ffigur 2.1. Egwyddorion Cysoni Adeiladol

Gosod nodau, amcanion neu ddeilliannau dysgu arfaethedig

Mynd yn Ddyfnach 2.1:

Nodau, amcanion a deilliannau dysgu

A oes angen i chi gael mwy o gefndir ar nodau, amcanion a chanlyniadau? Yn achos y rhai hynny sydd am gael ychydig mwy o ddyfnder, mae Mynd yn Ddyfnach 2.1 yn rhoi dirnadaeth a manylion i chi ar y berthynas rhwng nodau, amcanion dysgu a deilliannau dysgu arfaethedig, a all fod yn faes dryslyd.



Mae gosod nodau yn agwedd bwysig ar entrepreneuriaeth a dysgu myfyrwyr yn gyffredinol. Mae ymchwil² yn dangos bod y broses gosod nodau fwyaf effeithiol yn cynnwys y myfyrwyr yn gosod eu nodau eu hunain. Pan fydd y myfyrwyr eu hunain yn cymryd rhan yn y broses gosod nodau, profwyd bod hyn yn cael effaith ar gymhelliant y myfyrwyr, eu sgiliau hunanreoli a'u hunaneffeithlonrwydd (sef y gred y gall rhywun lwyddo yn rhywbeth). Yn syml, trwy osod eu nodau dysgu eu hunain, maent eisoes yn meithrin rhai o gymwyseddau EntreComp (h.y. 2.1 Hunanymwybyddiaeth a hunaneffeithlonrwydd a 2.2 Cymhelliant a dyfalbarhad).

Mae ymchwil hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod natur y nodau y mae myfyrwyr yn eu gosod eu hunain yn bwysig. Rhaid i nodau fod yn heriol yn hytrach nag o'r math 'gwneud eich gorau'.³ Pan fydd gan fyfyrwyr diddordeb mawr mewn cyflawni graddau uchel neu berfformio'n well nag eraill (nodau perfformiad), yna, yn y tymor hwy, mae eu dysgu'n debygol o fod yn fwy bas nag yn achos y rhai hynny sydd am wella er mwyn dysgu, ac sy'n buddsoddi'r gwaith caled angenrheidiol (nodau meistrolaeth).

Mae goblygiadau yma ar gyfer cynllunio dysgu entrepreneuriaidd. Dylech feddwl am y canlynol:

- > ennyn diddordeb y myfyrwyr yn y broses o osod eu nodau eu hunain
 - o er mwyn ysgogi a meithrin hunaneffeithlonrwydd (EntreComp 2.1 a 2.2)
- > darparu tasgau penagored, heriol
 - o er mwyn meithrin gweledigaeth y myfyrwyr o'r modd y bydd eu dysgu yn datblygu ac y byddant yn ymarfer dyfalbarhad, ac i annog dysgu dyfnach (EntreComp 1.3 a 2.2)
- > creu hinsawdd lle gwelir methiannau campus mewn goleuni cadarnhaol
 - o i'w helpu i ddysgu ymdopi ag amwysedd a methiant, ac i reoli risgiau (EntreComp 3.3)
- > gwobrwyo ymdrechion myfyrwyr yn ogystal â'u deilliannau
 - o er mwyn eu helpu i ddysgu o brofiad (EntreComp 3.5)
- > datblygu arferion lle mae'r myfyrwyr yn adolygu eu cynnydd eu hunain yn rheolaidd

² Moeller, Aleidine Kramer; Theiler, Janine M.; a Wu, Chaorong, "Goal Setting and Student Achievement: A Longitudinal Study" (2012). Faculty Publications: Department of Teaching, Learning and Teacher Education. 159.
<http://digitalcommons.unl.edu/teachlearnfacpub/159>

³ Hattie, J. (2009) *Visible Learning*, Routledge.




- o er mwyn eu helpu i ddysgu o brofiad (EntreComp 3.5)

Defnyddio EntreComp i osod nodau neu ddeilliannau dysgu arfaethedig

Nod y model EntreComp yw cefnogi athrawon i nodi pa gymwyseddau entrepreneuriaidd y maent eisoes yn eu datblygu, neu y gallent gynllunio i'w datblygu, trwy eu haddysgu. Mae'n gwneud hyn trwy rannu pob un o'r 15 o gymwyseddau yn flociau dysgu – gan helpu athrawon a hyfforddwyr i weld beth y mae angen i ddysgwyr ei brofi neu ei ymarfer er mwyn datblygu cymhwysedd penodol.

Defnyddio EntreComp i fapio neu gynllunio gweithgaredd dysgu penodol

Ar y lefel uchaf, gall athrawon ddefnyddio'r rhestr o 15 o gymwyseddau, a blociau adeiladu pob un, i archwilio pa rai o'r cymwyseddau hyn y gallent neu y dylent fod yn eu datblygu trwy weithgaredd penodol. Gall hyn helpu i fapio'r hyn yr ydych yn ei wneud, a dangos i chi beth y gallech ei wneud. Gallai hyn olygu newid y dysgu ychydig bach i gynnwys cymhwysedd penodol yn y broses ddysgu, neu newidiadau mwy os ydych am gynnwys dull prosiect entrepreneuriaidd mwy heriol yn eich cwricwlwm.



Ffig 2.2 Blociau Adeiladu EntreComp

Defnyddio EntreComp fel geiriadur o ddeilliannau dysgu

Mae defnyddio EntreComp fel 'geiriadur' yn golygu y gallwch archwilio a allai unrhyw ddeilliannau dysgu yn EntreComp fod yn ddefnyddiol i'w cynnwys yn eich gwaith cynllunio. Yn achos pob un o'r blociau adeiladu hynny, mae EntreComp yn darparu deilliant dysgu ar draws wyth lefel dilyniant.

Nid yw'r wyth lefel hyn wedi'u cysoni â lefelau addysgol, ond, yn hytrach, maent yn dangos deilliannau dysgu sy'n cynyddu ymreolaeth y dysgwr ac sy'n dystiolaeth o gymhlethdod cynyddol gweithgaredd dysgu penodol.

Mae'r lefelau hyn yn cynnig ffordd i addysgwyr weld y modd i ddeall y dilyniant y mae eu dysgwyr yn ei ddilyn, a hefyd i weld sut y gall cynllun eu gweithgareddau dysgu symud ymlaen i annog rhagor o ymreolaeth a chymhlethdod o du eu myfyrwyr, ac i ddisgwyl hynny.



Cymhwysedd EntreComp 3.4: Gweithio gydag Eraill

Mae'r lefelau'n adlewyrchu lefelau cynyddol o ymreolaeth (gweithio'n annibynnol ar yr athro) a chymhlethdod cynyddol y dysgu ...

BLOC ADEILADU	SYLFAEN		CANOLRADD		UWCH		ARBENIGOL	
	1	2	3	4	5	6	7	8
Datblygu deallusrwydd emosiynol	Gallaf amlygu empathi tuag at eraill.	Gallaf gydnabod rôl fy emosiynau, fy agweddau a'm hymddygiadau yn y broses o lunio agweddau ac ymddygiadau pobl eraill	Gallaf fynegi fy syniadau creu gwerth (neu syniadau creu gwerth fy nhim) gyda phendrantrwydd.	Gallaf wynebu a datrys gwrthdaro.	Gallaf gyfaddawdu lle bo angen.	Gallaf ddelio ag ymddygiad amhendant sy'n rhwystro fy ngweithgareddau i greu gwerth (e.e. agweddau dinistriol)	Gallaf reoli gwrthdaro mewn modd effeithiol.	
Gwrando'n astud	Gallaf amlygu empathi tuag at eraill.	Gallaf drafod buddion gwrando ar syniadau pobl eraill i gyflawni fy nodau (neu nodau fy nhim).	Gallaf wrando ar syniadau pobl eraill ar gyfer creu gwerth heb ddangos rhagfarn.	Gallaf wrando ar fy nefnyddwyr.	Gallaf ddisgrifio technegau gwahanol ar gyfer rheoli perthnasoedd â defnyddwyr.	Gallaf roi strategaethau ar waith i wrando'n astud ar fy nefnyddwyr a gweithredu ar eu hanghenion.	Gallaf ddwyn ynghyd wybodaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau er mwyn deall anghenion fy nefnyddwyr.	
Ffurio tîm	Rwy'n agored i weithio ar fy mhen fy hun yn	Rwy'n barod i newid fy ffordd o weithio mewn	Gallaf weithio gydag amrywiaeth o	O ran gweithgareddau creu gwerth,	Gallaf ffurfio tîm yn seiliedig ar wybodaeth,	O ganlyniad i dechnolegau digidol, gallaf	Gallaf ddylunio lleoedd ffisegol a rhithwir sy'n	Gallaf adeiladu gallu sefydliad i greu gwerth

	ogystal â gydag eraill, i chwarae rolau gwahanol ac i ysgwyddo peth cyfrifoldeb.	grŵp.	unigolion a thimau.	rwy'n rhannu'r berchnogaeth ag aelodau fy nhim.	sgiliau ac agweddau unigol pob aelod.	gyfrannu at greu gwerth trwy ffurfio tîm gyda chymunedau ar wasgar.	annog aelodau'r tîm i gydweithio.	trwy annog pobl i gydweithio.
Cydweithio	Rwy'n agored i gynnwys eraill yn fy ngweithgareddau creu gwerth.	Gallaf gyfrannu at weithgareddau syml sy'n creu gwerth.	Gallaf gyfrannu mewn modd adeiladol at y broses o wneud penderfyniadau mewn grŵp.	Gallaf greu tîm o bobl sy'n gallu gweithio gyda'i gilydd mewn gweithgaredd sy'n creu gwerth.	Gallaf ddefnyddio technegau ac offer sy'n helpu pobl i gydweithio.	Gallaf roi'r help a'r cymorth y mae ar bobl eu hangen i berfformio ar eu gorau mewn tîm.	Gallaf weithio gyda thîm anghysbell o bobl a all gyfrannu'n annibynnol at weithgaredd sy'n creu gwerth.	Gallaf gynllunio dulliau a chymhellion gweithio sy'n galluogi aelodau'r tîm i weithio'n dda gyda'i gilydd.

Enghraifft ymarferol: Ein Gardd Gymunedol

Mae'r datganiadau 'Gallaf ...' yn EntreComp wedi'u cynnwys fel ffordd o ddatblygu deilliannau dysgu mwy penodol, sy'n briodol ar gyfer y cyd-destunau yr ydych yn gweithio ynddynt.

Er enghraifft, tybiwch eich bod yn penderfynu rhoi'r her i'r myfyrwyr o ddatblygu gardd gymunedol i fod yn gyd-destun addas iddynt roi eu dysgu entrepreneuriaid ar waith. Mae Blwch 2.XX yn dangos sut y gellir rhannu'r nod ehangach o sefydlu gardd gymunedol yn amcanion llai o ran y prosiect a'r gwersi.

Prosiect: Ein Gardd Gymunedol

Nod entrepreneuriaid

- creu gwerth cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd i'r ysgol a'r gymuned trwy lunio gardd gymunedol yn yr ysgol

Amcanion y prosiect

- > erbyn mis Medi, recriwtio pwyllgor cynllunio sy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith myfyrwyr pob blwyddyn
- > erbyn diwedd mis Medi, dyfeisio cynllun busnes i'w gymeradwyo gan lywodraethwyr yr ysgol
- > ymgynghori ag aelodau o'r gymuned o ran cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a rhedeg gardd yr ysgol
- > gwneud elw o 10% erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf

Amcanion y wers

Erbyn diwedd y wers/gwersi, dylai'r myfyrwyr allu

- > nodi mathau gwahanol o werth cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd y gellir eu creu trwy ardd gymunedol (EntreComp 1.1)
- > gweithio'n rhan o dîm i ddatblygu gweledigaeth ysbrydoledig o ardd gymunedol (EntreComp 1.3/3.4)
- > cyfathrebu'n effeithiol wrth gymryd rhan mewn trafodaethau strwythuredig ag aelodau'r gymuned i gynnull cefnogaeth i'r ardd gymunedol (EntreComp 2.5)
- > gweld cyfleoedd i greu gwerth ariannol o'r ardd trwy gynhyrchion neu wasanaethau penodol (EntreComp 1.1)
- > creu cynllun busnes neu gynfas syniadau i ddatblygu gardd gymunedol, a'i gyflwyno/chyflwyno i lywodraethwyr yr ysgol (EntreComp 3.2)



Addasu dysgu entrepreneuriaidd i gyd-destunau pwnc gwahanol:

Mae amcanion y gwersi yn y tabl wedi'u haddasu o EntreComp (mae'r cymwyseddau cysylltiedig mewn cromfachau). Mae yna hefyd bosibilrwydd o gysylltu'r dysgu o'r gweithgaredd hwn â meysydd pwnc penodol, er enghraifft Mathemateg (ffurfio cyllid prosiect a defnyddio sgiliau datrys problemau), Daearyddiaeth (cyswllt â gwyddoniaeth naturiol neu themâu amgylcheddol) neu ieithoedd (datblygu'r eirfa mewn ieithoedd gwahanol i ddelio â chwsmeriaid neu gyflenwyr). Mae hyn yn golygu bod y dysgu entrepreneuriaidd yn dal ar waith, ond bod yr amcanion dysgu yn cael eu haddasu neu rai gwahanol yn cael eu cynnwys.

Cysoni asesiadau â chymwyseddau entrepreneuriaidd

Mewn dysgu entrepreneuriaidd, mae'n arbennig o bwysig dewis strategaethau asesu sy'n galluogi'r myfyrwyr i amlygu eu cymhwysedd, ac nad ydynt yn troi o amgylch y gair ysgrifenedig a'r hyn y gall y myfyrwyr ei gofio yn unig (gweler modiwl 4).

Ar ben hynny, wrth gynllunio ar gyfer cysondeb o'r fath, dylech feddwl yn ofalus am gael cyd-destun clir, dilys ac ysgogol er mwyn i ddysgu entrepreneuriaidd ddigwydd. Lle bo modd, ystyriwch osod nodau ar y cyd â'r myfyrwyr, ac eglurwch wrthynt y byddant yn cael eu hasesu fel bod y dysgu'n weladwy, h.y. rhannwch y meini prawf llwyddiant â nhw.

Ystyriwch yr enghraifft o fyfyrwyr ysgol gynradd yn cynnal prosiect bwyta'n iach fel gweithgaredd dysgu.

1. **NOD:** Nod y gweithgaredd dysgu yw creu syniad i gefnogi bwyta'n iach yn y gymuned, a chyflwyno'r syniadau'n ôl i gyfoedion. Efallai y bydd y myfyrwyr yn cynnig y syniad o far granola iach ar gyfer plant, ac yna'n archwilio ffyrdd o hysbysebu'r rhain i'r gymuned leol.
2. **AMCANION DYSGU:** Wrth wneud hynny, bydd y myfyrwyr yn ystyried yr adnoddau sydd ganddynt eu hunain a'r adnoddau y maent yn gallu eu cyrchu – o ran gwybodaeth, sgiliau ac adnoddau materol – a byddant yn creu gwerth trwy

ddefnyddio'r adnoddau hynny. O safbwynt entrepreneuriaidd, gallai'r amcanion dysgu droi o gwmpas hyrwyddo sgiliau cyfathrebu, gwaith tîm a chynllunio, ynghyd ag ymgorffori meddwl creadigol, a hynny nid yn unig ar y dechrau (wrth ddod o hyd i syniad), ond hefyd trwy gydol y broses ddysgu.

3. **MEINI PRAWF LLWYDDIANT:** Dylid mynegi'r meini prawf llwyddiant yn nhermau'r hyn y bydd y myfyrwyr yn ei ddweud, yn ei wneud neu'n ei ysgrifennu i ddangos eu bod yn symud tuag at gyflawni'r amcanion dysgu.
4. **ASESU:** Mae'r asesu yn dychwelyd wedyn i ymdrin â'r graddau y mae'r myfyrwyr yn bodloni'r meini prawf llwyddiant, a gellir ei roi ar waith trwy gyfrwng y canlynol:
 - a. – Adborth yr athro yn ystod y broses lle mae'r myfyrwyr yn creu eu posteri
 - b. – Hunanasesiad gan y grwpiau, a hynny trwy ddefnyddio cyfarwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r meini prawf llwyddiant
 - c. – Asesiad gan gymheiriaid ar ffurf grwpiau
 - d. – Trafodaeth lawn sy'n adolygu cynnydd yn unol â'r deilliannau dysgu arfaethedig

Er bod i ddull o'r fath ei rinwedd gan ei fod yn egluro diben a chyfeiriad y gwersi i fyfyrwyr, nid oes modd rhagweld dysgu entrepreneuriaidd. A dyma un o'i nodweddion apelgar. Felly, nid oes angen i fyfyrwyr, o reidrwydd, ddilyn amcanion rhagnodedig ar bob achlysur; mae angen iddynt gael y cyfle i fod yn greadigol, yn ddychmygus ac yn ddyfeisgar. O ganlyniad, her dull o'r fath yw bod yn strwythuredig, a hefyd sicrhau hyblygrwydd i'r myfyrwyr fynd cyn ddyfned â phosibl o ran datblygu cymwyseddau entrepreneuriaidd. Mae'r darlenniad yn 'Mynd yn Ddyfnach 2.1' yn trafod hyn yn fanylach.

Sut y gall dull o'r fath gynnwys egwyddorion arweiniol dysgu entrepreneuriaidd?

Creadigol

Mae'n hwyluso meddwl creadigol fel profiad dysgu yn y broses drwyddi draw, a hynny trwy ganiatáu i'r myfyrwyr archwilio syniadau lluosog a mynd i'r afael â phroblemau gwahanol y maent yn dod wyneb yn wyneb â nhw



Y byd go iawn	O ganlyniad i gyd-destunau yn y byd go iawn, mae'n hyrwyddo dysgu gweithredol trwy annog y myfyrwyr i ystyried perthnasedd eu syniad yn y byd go iawn
Creu Gwerth	Mae'n annog y myfyrwyr i greu gwerth ar gyfer eraill – gellir gwneud hyn trwy ofyn iddynt, yn rhan o friff y prosiect, nodi gwerth eu syniad i'r gymuned
Cydweithredu	Mae'n meithrin cydweithredu pwrpasol yn yr ysgol a'r tu hwnt iddi – gellir gwneud hyn trwy gynorthwyo'r myfyrwyr i weithio mewn modd cynhyrchiol ar ffurf tîm
Reflection	Mae'n ysgogi myfyrdod, meddwl hyblyg a dysgu o brofiad – gellir gwneud hyn trwy broses asesu myfyrdod
Gwelededd	Mae'n gwneud cymwyseddau entrepreneuriaidd yn rhan benodol o ddysgu ac asesu – trwy i'r myfyrwyr arwain y gwaith o osod nodau, a thrwy rannu'r meini prawf asesu â myfyrwyr o'r dechrau un



2.1.2 Dylai cynllunio roi ystyriaeth i gamau gweithredu moesegol a chynaliadwy

Mae EntreComp yn nodi 'meddwl moesegol a chynaliadwy' (1.5) yn gymhwysedd entrepreneuriaidd y dylid ei amlygu. Mae hyn yn golygu y dylai myfyrwyr bob amser ystyried effaith bosibl eu cynnyrch neu wasanaeth ar fywydau pobl a'r amgylchedd.

Ymwybyddiaeth foesegol

Mae ymwybyddiaeth foesegol yn ymwneud â nodi materion moesol ac achosion o gyfyng-gyngor sy'n codi. Mae'n cynnwys parodrwydd i fyfyrion ar oblygiadau ymddygiad, gan gynnwys ein hymddygiad ein hunain, ar fywydau eraill; a gwneud y newidiadau angenrheidiol. Mae Blwch 2.2 yn cynnwys enghreifftiau o strategaethau ymarferol y gellir eu defnyddio i sicrhau bod yna ddimensiwn moesegol i gynllunio ac addysgu prosiectau entrepreneuriaidd.

Strategaethau posibl i ddatblygu ymwybyddiaeth foesegol

- Gofyn, 'Beth yw'r gwerthoedd sylfaenol y mae ein syniad neu wasanaeth yn eu hamlygu? Er enghraifft, a ydym am iddo fod yn ddibynadwy, yn deilwng o ymddiriedaeth, yn gyfeillgar, neu a ddylai sefyll dros rywbeth arall, er enghraifft hwyl neu fforddiadwyedd?
- Trafod a yw nodau'r prosiect yn debygol o ddod â buddion amgylcheddol ac, os felly, i bwy. Os nad ydynt, pam ddim?
- Darparu senarios 'Beth y byddech chi'n ei wneud?' fel bod y myfyrwyr yn dechrau meddwl am eu cyfrifoldebau – gweler, er enghraifft, y senarios hyn yn achos [perchennog siop groser](#).
- Trafod achosion bywyd go iawn o brosiectau entrepreneuriaidd moesegol, a hynny gan ddefnyddio'r Rhyngrwyd, papurau newydd a chyfryngau eraill, e.e. <http://entrepreneur.nyu.edu/blog/2019/05/08/ethical-entrepreneurship-education/>
- Yn achos myfyrwyr ysgolion uwchradd, cynnal trafodaethau grŵp neu ddosbarth cyfan ynghylch: 'Beth y byddech chi'n ei wneud?' yn y [senarios yn y gweithle](#) hyn



- Trafod enghreifftiau o Chwythwyr Chwiban enwog, e.e. Mark Whitacre, a ddatgelodd achos o bennu prisiau mewn amaethyddiaeth, ac a ddaeth yn destun y ffilm *The Informant* gyda Mat Damon.
- Cynnal sesiwn chwarae rôl sy'n canolbwyntio ar gyfyng-gyngor moesegol posibl wrth gynllunio cynnyrch neu wasanaeth newydd, e.e. gêm fideo newydd i bobl ifanc sy'n cynnwys trais cymedrol
- Sefydlu'r ystafell ddosbarth i fod yn bwylgor moeseg neu 'lys' i wrando ar achosion o ymddygiad anfoesegol posibl; gan roi rolau erlyn, amddiffyn a chyflafareddu i unigolion
- Defnyddio straeon sy'n cynnwys dimensiwn moesegol cryf

Blwch 2.2 Strategaethau ymarferol i feithrin ymwybyddiaeth foesegol

Mae gan y rhan fwyaf o sefydliadau, yn cynnwys ysgolion a cholegau, ddatganiadau o werthoedd, sy'n fan cychwyn da ar gyfer trafodaeth. Mae'r rhain yn aml wedi'u hymgorffori yn eu datganiad cenhadaeth. Dylent gael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n tynnu sylw at y bwriad i wneud daioni, er enghraifft trwy gefnogi hawliau dynol, gwarchod yr amgylchedd, a bod o fudd i'r gymuned. Gall y myfyrwyr gasglu a thrafod datganiadau cenhadaeth (Blwch 2.3), pleidleisio dros eu ffefryn ac egluro pam. Gallant hefyd ddylunio eu brand personol eu hunain yn seiliedig ar eu gwerthoedd a'u hunaniaeth eu hunain. Yn ei Sgiliau Bywyd mae Barclays yn un sefydliad sy'n darparu cynlluniau gwersi yn y maes hwn.

Enghreifftiau o Ddatganiadau Cenhadaeth

- The Humane Society – Celebrating Animals, Confronting Cruelty
- Oxfam – helpu i greu atebion parhaol i anghyfiawnder tlodi
- Starbucks Coffee – To inspire and nurture the human spirit – one person, one cup and one neighborhood at a time
- Google – to organise the world's information and make it universally accessible and useful
- Association for the Blind and Visually Impaired [Americanaidd] – I lost my sight not my vision
- Sony – to be a company that inspires and fulfills your curiosity
- TED – spread ideas



- Virgin – Disruption is in our DNA
- Walmart – We save people money so they can live better
- Coca-Cola – to refresh the world in mind, body and spirit
- World Wildlife Fund – to conserve nature and reduce the most pressing threats to the diversity of life on Earth
- Microsoft – to empower every person and every organisation on the planet to achieve more.

Blwch 2.3. Enghreifftiau o Ddatganiadau Cenhadaeth

Fwy a mwy, mae gan nifer o sefydliadau ddatganiadau gwerthoedd sy'n adlewyrchu eu hymrwymiad i ofalu am yr amgylchedd. Gallai'r myfyrwyr adolygu'r 10 uchaf o ran y cwmnïau mwyaf eco-gyfeillgar yn y byd, ac ystyried sut y mae'r enghreifftiau hyn yn amlygu'r cysyniad o gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol.

Cynaliadwyedd

Dros y degawdau diwethaf, oherwydd mwy o ymwybyddiaeth o effaith dynoliaeth ar yr amgylchedd, mae addysg ar gyfer cynaliadwyedd⁴ wedi dod yn nodwedd mewn llawer o systemau addysgol ledled Ewrop. Gweledigaeth y Comisiwn Ewropeaidd yw gweld Ewrop gynaliadwy erbyn 2030, a hynny gan ddefnyddio Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig yn bwynt cyfeirio.⁵ Yn benodol, mae'n disgwyl i fodolau busnes newydd (sy'n seiliedig ar entrepreneuriaeth 'werdd'), ynghyd ag addysg, greu'r amodau cywir ar gyfer cynaliadwyedd. Yn y cyd-destun hwn, mae'n amlwg bod gan addysg entrepreneuraidd ran bwysig i'w chwarae. Felly, wrth gynllunio'r cwricwlwm, ac ym mywyd cyffredinol yr ysgol neu'r coleg, mae'r egwyddor 'gweithredu'n lleol a meddwl yn fyd-eang' yn un ddefnyddiol i'w dilyn. Mae Tabl 2.1 yn rhoi 10 awgrym i hyrwyddo cynaliadwyedd.

⁴ Diffinnir hyn fel camau gweithredu sy'n diwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

⁵ Y Comisiwn Ewropeaidd (2019) *Reflection Paper. Towards a Sustainable Europe by 2030*. Ar gael yma: https://ec.europa.eu/commission/sites/beta-political/files/rp_sustainable_europe_30-01_en_web.pdf



Gweithgareddau posibl
1. Cymryd rhan mewn cynllun plannu coed
2. Dechrau a chynnal rhandir neu ardd ysgol
3. Gofyn i'r myfyrwyr roi cynnig ar y cwis canlynol i wirio eu hól troed unigol (effaith) ar yr amgylchedd: http://myfootprint.org). Yna, gall y myfyrwyr ddatblygu cynlluniau i leihau eu heffaith amgylcheddol ar y Ddaear.
4. Gosod her i'r myfyrwyr ddod o hyd i 10 ffordd y gallai'r ysgol fynd yn ddi-bapur
5. Cymryd rhan yn y Diwrnod Rhyngwladol Cerdded i'r Ysgol
6. Dechrau clwb ailgylchu sy'n cael ei redeg gan y myfyrwyr
7. Gan ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu, cynnal cystadleuaeth ar gyfer y gweithiau celf mwyaf creadigol
8. Gwahodd 'entrepreneur gwyrdd' i'r ysgol neu'r coleg i siarad am ei waith
9. Ymweld â fferm organig a chyf-weld â'r ffermwr am ei fusnes
10. Dod yn eco-ysgol (https://www.ecoschools.global/)

Tabl 2.1. Awgrymiadau ar gyfer cynaliadwyedd

Yn ogystal â'r syniadau cyffredinol hyn, dylech annog y myfyrwyr i feddwl am daith eu syniad neu wasanaeth newydd o safbwynt cynaliadwyedd. Gallent wedyn ei harddangos ar fwrdd stori. Yng nghyd-destun busnes, mae hyn yn cyfeirio at gylch bywyd y cynnyrch, sy'n cynnwys elfennau o arloesi cynaliadwy ar sail y tri P: proffid (elw), pobl, planed.

Pwnc fforwm LoopMe 2.1

A allwch amlygu EntreComp yn eich gweithgarwch addysgu blaenorol?

Mae fforwm grwp ar LoopMe le i gwrdd a pobl eraill ar y gwrs. Ewch yno i rhannu'ch canlyniadau. Gallwch wneud hyn yn y ddolen isod, ac yna lawrlwytho PDF o'ch gwaith.

Yn seiliedig ar y model cysoni adeiladol, dangoswch sut y mae gweithgaredd syml yr ydych wedi ei ddefnyddio o'r blaen yn datblygu un (neu ragor) o gymwyseddau EntreComp. Efallai gallwch chi'n ffeindio cerdyn addysgol yn ddefnyddiol.

<https://bantani.com/wp-content/uploads/2020/10/EntreComp-Teacher-Cards-EN.pdf>



ADRODDIAD GRWP FFORWM Rhannwch y PDF â chyd-weithwyr yn y Fforwm Grŵp – dylech hefyd ddarparu adborth ar gyfraniadau eraill.

Tasg hyfforddi LoopMe 2.1: Dod o hyd i ysbrydoliaeth yn eich gwaith cynllunio

Mae UNESCO wedi cynhyrchu deunyddiau ar-lein cynhwysfawr ar ddatblygu cynaliadwy. Ewch i'w wefan, a dewiswch un o'r materion cyfoes i fyfyrno arno (e.e. twristiaeth gynaliadwy).

Link: http://www.unesco.org/education/tlsf/mods/theme_c.html

Er enghraifft: ym mha ffyrdd y gallai eich myfyrwyr ddarganfod rhagor am y pwnc a defnyddio eu gwybodaeth i ddylanwadu ar eraill i ddod yn deithwyr mwy ymwybodol?

Neilltuwch ychydig funudau i feddwl sut y gallech ddefnyddio'r adnodd hwn yn eich addysgu yn sail i feithrin sgiliau entrepreneuriaidd eich myfyrwyr. Er enghraifft: ym mha ffyrdd y gallai eich myfyrwyr ddarganfod rhagor am y pwnc a defnyddio eu gwybodaeth i ddylanwadu ar eraill i ddod yn deithwyr mwy ymwybodol?

Rhannwch eich myfyrdodau â'ch hyfforddwr yn Nhasg 2.1 ENTRECOMPEDU Modiwl 2



2.2 Gwneud cysylltiadau

Mae'r gallu i wneud cysylltiadau yn elfen hanfodol o fod yn entrepreneuriaidd. Er enghraifft, mae hyn yn golygu gwneud cysylltiadau â:

- pobl, e.e. cwsmeriaid, gweithwyr a rhanddeiliaid eraill
- lleoedd, e.e. ar lefelau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a byd-eang
- diwylliannau, e.e. arferion, traddodiadau, deddfau, gwisg, credoau crefyddol⁶
- amserau, e.e. y gorffennol, y presennol a'r dyfodol
- syniadau, e.e. hen a newydd, mawr a bach
- adnoddau, e.e. deunyddiau, cost, cynaliadwyedd
- gwasanaethau, e.e. technolegau, trafnidiaeth, cyfathrebu

Fel addysgwyr, byddwch hefyd yn gwybod pa mor bwysig yw cysylltu â gwybodaeth a phrofiad blaenorol y myfyrwyr. Er enghraifft, trwy ddefnyddio tasgau cyn asesu, mapiau meddwl a siartiau Gwybod, Eisiau a Dysgu (KWL), lle mae'r myfyrwyr yn cofnodi'r hyn y maent eisoes yn ei wybod am bwnc, yr hyn y maent am ei ddarganfod ac (yn ddiweddarach) yr hyn y maent wedi'i ddysgu. Mae yna lefel arall o gysylltu yn bodoli mewn ysgolion a cholegau sy'n dilyn astudiaethau rhyngddisgyblaethol neu brosiectau trawsgwricwlaidd.

Ledled Ewrop, trefnir cwricwla ysgolion a cholegau mewn ffyrdd gwahanol, e.e. yn ôl prosiectau, themâu, pynciau (craidd a di-graidd), astudiaethau rhyngddisgyblaethol, neu ddysgu yn y gwaith. Beth bynnag fo eich cyd-destun penodol, gall fod yn fan cychwyn defnyddiol i archwilio pa gysylltiadau naturiol y gellir eu gwneud rhwng yr 17 o gymwyseddau EntreComp a'ch cwricwlwm.

⁶ Wrth gwrs, mae bod yn entrepreneuriaidd hefyd yn golygu parchu hynodrydd a bod yn sensitif i ddiwylliannau.

Gallwn ystyried tair enghraifft:

1. Ysgol gynradd thema drawsgwricwlaidd
2. Ysgol uwchradd yn seiliedig ar bwnc (Hanes)
3. Coleg galwedigaethol cynllun prentisiaeth (trin gwallt)

2.2.1. Ysgol gynradd – creu thema drawsgwricwlaidd

Mae ysgolion cynradd yn cynllunio mewn ffyrdd gwahanol (e.e. pynciau, themâu, cwestiynau, meysydd dysgu a llinellau pwnc mwy traddodiadol). Mae llawer yn defnyddio dull trawsgwricwlaidd wrth i athrawon anelu at integreiddio profiadau dysgu o gwmpas diddordeb neu thema gyffredin. Nid yw cynllunio ac addysgu trawsgwricwlaidd ddim heb ei feirniaid, sy'n pryderu am faterion megis sicrhau dilyniant o ran gwybodaeth a sgiliau pwnc-benodol. Os ydych yn addysgu mewn ysgol gynradd, a beth bynnag fo'ch dull, mae'n werth myfyrio ar sut y gallech fynd ati i gynllunio yn y ffordd fwyaf effeithiol ar gyfer integreiddio cymwyseddau entrepreneuriaidd ledled llawer o 'bynciau' mewn cwricwlwm cynradd.

Un ateb yw dilyn dull Dysgu Seiliedig ar Broblemau wrth gynllunio. Sail y math hwn o ddysgu yw defnyddio senarios penagored o fywyd go iawn i sbarduno diddordeb y myfyrwyr a darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu cymhwysol, e.e. cymhwyso sgiliau megis gwaith tîm, ymchwil, creadigrwydd a meddwl yn feirniadol. Efallai y gallech osod y broblem ganlynol i'r myfyrwyr:

- Gweithiwch mewn grŵp i gynllunio gwyliau pum niwrnod i gyrchfan



Ewropeaidd ddewisol ar gyfer teulu o bedwar sydd ar gyllideb o 1,000 ewro. Gallwch chi ddewis pa adeg o'r flwyddyn y maent i fynd.

Yn y senario hwn, gallai'r myfyrwyr fynd ati i benderfynu ar broffil pob aelod o'r teulu mabwysiedig, neu efallai y byddwch chi'n darparu manylion o'r fath. Mae'n bosibl y byddwch, er enghraifft, am herio stereoteipiau o deulu 'niwclear', sy'n cynnwys mam a thad a dau blentyn. Gallai'r teulu gynnwys tad sengl gyda thri o blant bach neu gwpl lesbiaidd gyda phlant.

Yn raddol, o wythnos i wythnos, gallwch ddatgelu gwybodaeth ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r dasg ac sy'n adlewyrchu bywyd go iawn; mae'n bosibl y bydd yr wybodaeth hon yn annog y myfyrwyr i ailfeddwl am eu dull. Er enghraifft

- Mae un aelod o'ch teulu wedi darganfod bod ganddo ymrwymiad annisgwyl gartref yn ystod y gwyliau a gynlluniwyd, a hoffai gadw at yr ymrwymiad hwnnw.
- Rydych yn darganfod bod pryderon diogelwch eich cyrchfan ddewisol wedi cynyddu yn dilyn digwyddiad terfysgol diweddar.
- Mae'r tywydd wedi mynd o ddrwg i waeth yn eich cyrchfan arfaethedig. Mae hi'n addo cenlli o law.
- Mae ffrind i'r teulu, a addawodd edrych ar ôl y ci tra byddent i ffwrdd, wedi gorfod canslo oherwydd bod yn rhaid i'w mam gael llawdriniaeth yn yr ysbyty yr wythnos honno.

Mae natur 'fyw' Dysgu Seiliedig ar Broblemau yn addas ar gyfer integreiddio sgiliau ac anian entrepreneuriaidd.

Mae Ffigur 2.2 yn rhoi trosolwg o rai meysydd cwricwlwm enghreifftiol y gallai senario o'r fath fynd i'r afael â nhw. Mae'r rhain wedi'u cynnwys ar ffurf cwestiynau, i adlewyrchu'r natur a'r trywydd ymholi sy'n perthyn i'r dull Dysgu



Seiliedig ar Broblemau. Nodir y cysylltiadau â chymwyseddau entrepreneuriaidd EntreComp mewn cromfachau.

Yn yr un modd â phob dull rhyngddisgyblaethol, mae angen gofalu peidio â 'gorfodi' cysylltiadau artiffisial. Er enghraifft, gallai creu grŵp o'r Deyrnas Unedig sy'n dewis yr Eidal fel ei gyrchfan, er mwyn diwallu anghenion a diddordebau ei 'deulu', fod yn elfen llawn dychymyg, ond ni fyddai'n ymarferol iawn nofio yno i arbed arian!

Wrth gynllunio i integreiddio'r cymwyseddau *entrepreneuriaidd*, mae'n hanfodol eich bod yn myfyrio'n ofalus ar eu natur. Rhaid i'r ffocws fod ar y myfyrwyr yn bod yn entrepreneuriaidd. Er enghraifft, yn Ffigur 2.2 gofynnwn y cwestiwn: 'Sut y byddwn yn cadw mewn cysylltiad â phobl gartref tra byddwn i ffwrdd?' Er mwyn i hyn sicrhau potensial ar gyfer dysgu entrepreneuriaidd, bydd angen i'r myfyrwyr feddwl mewn modd arloesol ynghylch sut y gallant greu rhywbeth sydd o werth cymdeithasol:

- creu albwm gwyliau ar-lein trwy Shutterfly, Apple Photos, ffotograffau Amazon Prime neu Google
- dechrau edefyn e-bost sy'n rhannu hoff rysâit neu dirnod gwyliau
- ysgrifennu blog teithio

Ac, wrth gwrs, mae yna lawer o apiau sy'n galluogi pobl i gadw mewn cysylltiad. Yn Japan, daeth LINE i fodolaeth mewn ymateb i tswnami a daeargryn 2011, ac mae LINE ei hun bellach yn datgan mai hwn yw'r ap negeseua symudol sy'n tyfu gyflymaf yn y byd.⁷

⁷ <https://line.me/en/>

Mapio'r cysylltiadau â meysydd pwnc gwahanol (dolenni i gymwyseddau EntreComp mewn cromfachau)

MATHEMATEG

- Sut y mae prisiau trefnwyr teithiau gwahanol yn cymharu? A allwn drafod gwell bargaen, neu a allwn wneud ein trefniadau ein hunain? (2.4)
- Sut y byddwn yn teithio i'n cyrchfan(nau)? (1.5)
- Pa ffurf ar gludiant fydd yr un fwyaf costeffeithiol y byddwn yn ei defnyddio? (2.4)
- Beth yw ein cyllideb ddyddiol? A fyddwn yn ymweld â thirnodau enwog? Os felly, faint fydd y costau mynediad? Beth am luniaeth? (2.4)
- Sut y gallwn gynhyrchu incwm tra byddwn i ffwrdd? (1.2)

Y DYNIAETHAU

- Pa ffigurau/dirnodau hanesyddol yw'r enwocaf lle'r ydym yn ymweld? (1.4)
- A oes yna unrhyw arferion neu draddodiadau y mae'n rhaid i ni wybod amdanynt, e.e. gwisg, bwyd, moesau? (3.3)
- Sut y gallwn deithio mewn ffordd gynaliadwy? (1.5)

Y CELFYDDYDAU

- A oes yno unrhyw orielau enwog gwerth ymweld â nhw? Pa weithiau celf a allai fod yn cael eu harddangos? (1.4)
- Pa bethau yr ydym yn rhagweld y byddwn yn eu gweld a allai beri i ni ddweud 'Waw!' (1.4)
- Ar y daith ei hun, pa batrymau, llinellau, siapiau, pobl, lleoedd, lliwiau a gwrthrychau a allai fod y rhai mwyaf anarferol i ni eu gweld? A allwn ni ddefnyddio'r arsylwadau hyn i greu rhywbeth newydd? (1.1)
- A allwn ni greu sylwebaeth amlgyfrwng ar ein gwyliau? (1.2)

CYFATHREBU AC IAITH

- Pa ffordd yw'r orau i ni gynllunio a rheoli'r gwyliau hyn? A oes arnom angen amserlen? A ddylai hon fod ar ffurf 'copi caled' neu e-gopi? Word? Excel? (1.4)
- Pa adnoddau allweddol y mae arnom eu hangen? (2.3)
- Sut y byddwn yn cadw mewn cysylltiad â phobl gartref tra byddwn i ffwrdd? (3.2)
- Sut y byddwn yn paratoi ar gyfer cyfleoedd i ymarfer siarad Saesneg/Ffrangeg/Sbaeneg (iaith frodorol)? (1.1)

GWYDDONIAETH

- Pa ffactorau iechyd a diogelwch y mae angen i ni eu hystyried wrth deithio? (3.3)
 - A oes gan unrhyw un o'n teulu gyflwr meddygol? Os felly, beth y mae angen i ni ei ystyried? (3.2)
 - A oes angen i ni bacio dillad gwrth-dywydd? (3.2)
- A fyddwn yn ymweld â ... coetiroedd, traethau, mynyddoedd, ac ati? Os felly, beth y mae angen i ni ei wybod am fywyd planhigion ac anifeiliai?
- ### Y CELFYDDYDAU
- A oes yno unrhyw orielau enwog gwerth ymweld â nhw? Pa weithiau celf a allai fod

DATBLYGIAD PERSONOL

- I ble yr ydym am fynd, a pham? (1.1, 1.2)
- Beth os yr ydym yn anghytuno? (3.4)
- Beth a fydd proffil ein teulu o bedwar? (1.2)
- Pwy a fydd yn gwneud pa dasgau yn ein grŵp? (3.4)
- Beth yw ein terfynau amser? (3.2)
- Beth yw ein cynlluniau wrth gefn? (3.3)
- A fyddem yn mynd eto? (3.5)

2.2 2 Pwnc ysgol uwchradd – Hanes

Er bod yna wahaniaethau ledled Ewrop yng nghynnwys y cwricwlwm uwchradd Hanes a'r modd y mae Hanes yn cael ei gynllunio a'i addysgu, mae yna gytundeb eang fod hanes Ewrop yn cynnwys proses barhaus o adeiladu ac ailadeiladu'r gorffennol.⁸ Yn ymarferol, mae hyn yn golygu deall pam y digwyddodd pethau, pa effaith a gafodd digwyddiadau, sut a pham y mae bywyd wedi newid, a'r modd y mae'r gorffennol wedi'i ddehongli mewn ffyrdd gwahanol. Mae pobl wedi bod yn entrepreneuriaidd trwy gydol hanes, hyd yn oed cyn i'r gair gael ei ddyfeisio yn yr unfed ganrif ar bymtheg.⁹ Mae Tabl 2 yn rhoi enghreifftiau o ymddygiadau entrepreneuriaidd (o EntreComp) y gellid eu hamlygu trwy ddigwyddiadau, themâu, cyfnodau a chwestiynau hanesyddol gwahanol. Er bod ffigurau enwog yn cael eu crybwyll, mae'n bwysig bod y myfyrwyr yn gweld sut y mae pobl o bob cefndir – y tu hwnt i fawrion y genedl – wedi amlygu ysbryd entrepreneuriaidd.

Ystyriwch enghraifft y Pla Du yn y 14eg ganrif. Hon oedd y drychineb ddemograffig fwyaf yn hanes Ewrop, lle amcangyfrifir bod hyd at 60% o'r boblogaeth wedi marw. Mewn amseroedd mor dywyll, roedd pobl yn rheoli risgiau ac ansicrwydd. Er enghraifft, roedd masnachwyr yn yr Eidal yn rhannu eu cargoau ymhlith llongau, neu'n eu hyswirio, a hynny er mwyn lleihau colledion posibl pe byddai criwiau'n cael eu heintio a nwyddau'n cael eu dinistrio. Aeth y gweithwyr ati i drafod cyflogau uwch, oriau byrrach a gwyliau hirach oherwydd bod galw mawr am eu gwasanaethau.

Gallai'r enghreifftiau a grybwyllir yn Nhabl 2 arwain at drafodaeth am lawer o'r cymwyseddau entrepreneuriaidd, heblaw'r rhai a restrir. Er enghraifft, er y gallai

⁸ Gweler gwefan Cymdeithas Addysgwyr Hanes Ewrop, <https://www.euroclio.eu/>

⁹ Yn wreiddiol, ystyr y gair *entrepreneur* yn Ffrangeg oedd 'ymgymerwr', ac fe'i defnyddiwyd gyntaf i ddisgrifio rhywun a ymgymerei â'r gwaith o reoli perfformiad theatrig neu gerddorol yn Ffrainc yn yr unfed ganrif ar bymtheg.



athro siarad am *ddyfalbarhad* y Swffragetiaid, yn parhau'n driw i'w hargyhoeddiadau, gallai *sylwi ar gyfleoedd a gweithio gyda'i gilydd* hefyd fod yn nodweddion. Cyn rhyddhau'r ffilm *Suffragette* yn 2015, roedd y sylw pennaf yn cael ei roi i'r arwres, Emmeline Pankhurst. Ond gwelodd tîm o fenywod (yn awdur, cyfarwyddwr a dau gynhyrchydd ffilm) gyfle i adrodd stori Maud Watts, un o'r miloedd lawer o fenywod anweledig, a drawsnewidiodd ei hun yn ffigur blaenllaw ym mudiad y swffragetiaid. Dyma enghraifft o werth diwylliannol yn cael ei ychwanegu gan dîm modern yn cydweithio'n agos.



Thema	Enghreifftiau	Posibiliadau entrepreneuriaidd
Digwyddiadau hanesyddol	<ul style="list-style-type: none"> • Y Pla Du; Y Croesgadau, y Rhyfel Byd Cyntaf • Y Chwyldro Ffrengig • Y Dirwasgiad Mawr • Ffurio Cymuned Economaidd Ewrop • Cwyp Wal Berlin 	Ymdopi ag ansicrwydd (3.3) Rhoi gwerth ar syniadau (1.4) Llythrennedd ariannol ac economaidd (2.4) Cydweithio (3.4) Sylwi ar gyfleoedd (1.1)
Pobl hanesyddol	<ul style="list-style-type: none"> • Pericles; Alecsander Fawr; Hannibal; Iŵl Cesar; Cystennin; Siarlymaen; Ferdinand ac Isabella o Sbaen; Elizabeth I; Louis XIV; Pedr Fawr; Ffredric Fawr; Napoleon; Bismarck • Dyfeiswyr a'u dyfeisiadau ledled gwyddoniaeth, meddygaeth, diwydiant, technolegau, cyfathrebu, hamdden, trafnidiaeth, y celfyddydau, chwaraeon, cyhoeddi llyfrau 	Sylwi ar gyfleoedd (1.1), Gweledigaeth (1.3) Creadigrwydd (1.2)
Themâu hanesyddol	<ul style="list-style-type: none"> • Genedigaeth a lledaeniad Cristnogaeth a/neu Islam • Masnach a bancio (Gwledydd Benelwcs) • Y Swffragetiaid 	Gweledigaeth (1.3) Llythrennedd ariannol ac economaidd (2.4) Cymhelliant a dyfalbarhad (2.2)
Cyfnodau hanesyddol	<ul style="list-style-type: none"> • Oes y Cerrig: technolegau, adeiladu hengorau • Oes Aur Athen: dyfeisio democratiaeth • Sbaen a Phortiwgal a'r fforiadau 'darganfod' • Ffrainc a'r Ymoleuo • Yr Eidal a'r Dadeni • Yr Almaen a'r Diwygiad • Cymru a Lloegr a'r Chwyldro Diwydiannol • Oes y Cyfrifiaduron 	Cydweithio (3.4) Creadigrwydd (1.2), Rhoi gwerth ar syniadau (1.4) Rhoi adnoddau ar waith (2.3) Gweledigaeth (1.3) Creadigrwydd (1.2) Mynd amdani (3.1) Sylwi ar gyfleoedd (1.1) Creadigrwydd (1.2)
Cwestiynau hanesyddol	<ul style="list-style-type: none"> • Sut y ceisiodd dinasoedd a gwladwriaethau fynd i'r afael â phroblemau a ddaeth yn sgil moderneiddio, e.e. tlodi? • Beth y byddwn yn ei gofio ar Ddydd y Cofio? 	Gweledigaeth (1.3) Rhoi adnoddau ar waith (2.3) Hunanymwybyddiaeth (2.1)

Tabl 2.2. Enghreifftiau o'r modd y mae cymwyseddau entrepreneuriaidd yn cysylltu â Hanes

2.2.3. Addysg alwedigaethol – prentisiaeth

Nod addysg alwedigaethol yw datblygu cymhwysedd gwaith y myfyrwyr, sy'n cynnwys meistroli trefnau bob dydd mewn parth penodol, meddu ar anianau ehangach (e.e. cydnerthedd), crefftwriaeth, a dealltwriaeth o'r elfennau economaidd a chymdeithasol sy'n perthyn i waith.¹⁰ Defnyddir prentisiaethau yn helaeth ledled Ewrop fel ffordd o wneud y pontio o'r ysgol i gyflogaeth yn fwy esmwyth, ac i fynd i'r afael ag anghydbwysedd yn y farchnad lafur. Fel arfer, mae prentisiaid yn cael hyfforddiant yn y gwaith (am 60-80% o'u hamser), ac maent yn mynychu hyfforddiant technegol mewn coleg neu sefydliad am weddill yr amser.

Mae Tabl 3 yn cynnwys cynllunio ar gyfer prentisiaeth mewn trin gwallt, a chyfeiriadau posibl at gymwyseddau entrepreneuriaidd. Yn ychwanegol at y tasgau hyn, byddai disgwyl i brentisiaid, fel arfer, gyflawni swyddi penodedig yn unol â'r safonau ansawdd a chynhyrchu gofynnol gan y diwydiant, e.e. defnyddio a gweithredu cyfarpar mewn modd diogel. Mae trin gwallt yn cynnig cyfleoedd i brentisiaid arsylwi ar gyfleoedd entrepreneuriaidd (e.e. gwerthu cynhyrchion gofal gwallt, cynnig gwasanaethau steilio), a llunio cynlluniau i redeg eu salonau eu hunain, pa un a ydynt yn rhai symudol, o gartref neu mewn siop. Mae'n bosibl y byddant yn ystyried datblygu eu cynhyrchion gofal gwallt eu hunain gan y bydd rhai gweithgynhyrchwyr yn rhoi eu cynhyrchion, wedi'u pecynnu, o dan enw'r triniwr gwallt.

Gallai sesiynau hyfforddi cynlluniedig yn y coleg gyda phrentisiaid gynnwys rhannu straeon am drinwyr gwallt arloesol, ddoe a heddiw, i ddangos eu hysbryd entrepreneuriaidd. Er enghraifft, roedd Toni Mascolo (cyd-sylfaenydd Toni & Guy) wedi arloesi'r ffordd gyda'r siswrn samwrai Japaneaidd, a oedd yn llawer mwy miniog na siswrn cyffredin, gan felly ei gwneud yn bosibl bod yn fwy creadigol.

¹⁰ Lucas, B., Spencer, E. a Claxton, G. (2012) *How to teach vocational education: A theory of vocational pedagogy*, Llundain: City and Guilds.



Cyflwynodd hefyd 'lyfrau edrych' a oedd yn awgrymu steiliau y gallai cleientiaid ddewis ohonynt. Ond nid oedd ei gyngor o reidrwydd yn golygu torri'r gwallt yn ôl yr hyn yr oedd y cleient yn ei ddymuno. Dywedodd fod cleientiaid, yn aml, yn meddwl eu bod yn edrych ar y gwallt, ond, mewn gwirionedd, edmygu pa mor drawiadol yw'r model y maent. ¹¹ Gallai cynllunio ar gyfer cymwyseddau entrepreneuriaid hefyd gynnwys hyfforddi myfyrwyr sut i wneud y canlynol:

- > blogio am wallt neu ddechrau blog fideo (fideo byr) am wallt
- > dod yn steilydd gwallt ar YouTube
- > trefnu arddangosfa gwallt
- > ysgrifennu canllawiau ar steiliau
- > cynnig gwasanaethau ymgynghori ar gyfer priodasau neu fusnes ailgylchu gwallt.

Cymwyseddau trin gwallt	Dolenni EntreComp
torri gwallt, e.e. cynllunio a chreu patrymau mewn gwallt	Gweledigaeth (1.1) Creadigrwydd (1.2)
steilio gwallt, e.e. y modd y mae ffactorau gwahanol yn dylanwadu ar y dewis ac ar gyfeiriad steil sydd wedi'i blethu	Rhoi gwerth ar syniadau (1.4)
gwerthu cynhyrchion gwallt: hyrwyddo a gwerthu cynhyrchion a gwasanaethau i gleientiaid	Sylwi ar gyfleoedd (1.1)

Tabl 2.3. Enghreifftiau o weithgarwch trin gwallt a chymwyseddau entrepreneuriaid

¹¹ Bounds, A. (2017) 'Toni Mascolo, hairdresser and entrepreneur, 1942-2017', *Financial Times*, 23 Rhagfyr 2017.

MYND YN DDYFNACH: 2.2

Cynllunio prosiect entrepreneuriaidd

Mae yna hefyd adnoddau darllen ychwanegol i'ch helpu i ddyfnhau eich gwybodaeth am feysydd penodol. Dyma Mynd yn Ddyfnach ar gyfer Modiwl 2 – yn achos adran 2.2, gall y bennod ar Cynllunio prosiect Entrepreneuriaidd fod yn ddefnyddiol. Gellir dod o hyd iddi yma

Dolen Issuu:PDF

Pwnc fforwm LoopMe 2.2:

Gwneud cysylltiadau

Mae'r Fforwm Grŵp yn LoopMe yn ofod i gwrdd a myfyrio gyda chyfranogwyr eraill ar y cwrs. Ewch yno a rhannwch eich canlyniadau o'r dasg ganlynol.

MYFYRIO: Meddyliwch am thema y gallwch ei defnyddio wrth addysgu i gysylltu eich cwricwlwm â phrofiad bywyd go iawn eich dysgwyr.

CYNLLUNIO: Cynlluniwch weithgaredd syml yn seiliedig ar y thema hon y gallwch ei defnyddio wrth addysgu, a hynny naill ai wyneb yn wyneb neu mewn ystafell ddosbarth ar-lein. Os bydd yn ddefnyddiol, gallwch ddefnyddio cynllun y gweithgaredd syml eto.

Entrepreneurial activity canvas: <https://su.vc/activities> ADRODDIAD GRŴP FFORWM: Rhannwch gynllun eich gweithgaredd yn y Fforwm Grŵp.

Dolen i'r fforwm: [dolen uniongyrchol i'r Fforwm iaith perthnasol](#)

Tasg hyfforddi LoopMe 2.2:

Eich dysgeidiaeth

GWEITHREDU: Rhwch eich cynllun ar waith yn un o'r ffyrdd canlynol: 1. Trafodwch gynllun eich gweithgaredd â chyd-weithiwr. Mae adborth gan



gyd-weithwyr yn bwysig – pa adborth sydd gan eich cyd-weithiwr i wella eich gweithgaredd? Neu 2. Ewch ati i gynnal y gweithgaredd gyda'ch dysgwyr. Mae adborth gan fyfyrwyr yn bwysig! Pa adborth sydd gan eich myfyrwyr ar y gweithgaredd, ac a ydynt o'r farn y byddai rhagor o weithgareddau fel hyn yn ddefnyddiol ar gyfer eu dysgu?

MYFYRIO: Ar ôl gwneud yr ymarfer hwn, myfyriwch ar y cwestiynau canlynol.

1. Beth a fyddai'n newid ar sail ar yr adborth gan eich cyd-weithiwr a/neu fyfyrwyr?
2. Pa rai o egwyddorion EntreComp yr ydych wedi eu defnyddio yn y gweithgaredd hwn – a allech wella hyn ymhellach?

ADRODDIAD HYFFORDDWR - Rhannwch eich casgliadau â'ch hyfforddwr yn LoopMe - cliciwch ar y botwm 'Adroddiad' isod.



2.3 Creu amgylchedd dysgu entrepreneuriaidd grymusol

Mae'r amgylchedd dysgu yn cyfeirio at y gwahanol leoliadau, cyd-destunau a diwylliannau y mae myfyrwyr yn dysgu ynddynt.

MYND YN DDYFNACH 2.3:

Mae yna hefyd adnoddau darllen ychwanegol i'ch helpu i ddyfnhau eich gwybodaeth am feysydd penodol. Dyma Mynd yn Ddyfnach ar gyfer Modiwl 2 – yn achos adran 2.3, gall y bennod ar Gwneud y gorau o fannau dysgu ac adnoddau eraill fod yn ddefnyddiol.

Dolen Issuu: Link: https://issuu.com/bantaniedu/docs/entrecompedu_cpd_module_2_-_go_deeper_2.3

Datblygu ein dealltwriaeth o'r hyn a all fod yn amgylchedd dysgu

Cydnabyddir yn gynyddol, a ninnau'n byw mewn oes ddigidol, fod dysgu'n digwydd y tu hwnt i furiau'r ysgol, gan gynnwys mewn lleoedd cyhoeddus eraill, er enghraifft amgueddfeydd, orielau a labordai, yn ogystal â bydoedd rhithwir.

Gall y lleoedd hyn alluogi ffyrdd arloesol o weithio gyda myfyrwyr, a chaniatáu i fyfyrwyr lunio gwybodaeth newydd. Er enghraifft, yn y Deyrnas Unedig roedd un prosiect byw yn cynnwys amgueddfeydd yn cynnal dosbarthiadau ar gyfer plant ysgolion cynradd am dymor¹². Er bod yna heriau logistaidd i'w goresgyn, roedd y buddion cyffredinol yn gorbwyso'r rhain. Meithrinodd staff yr amgueddfa

¹² <https://www.kcl.ac.uk/Cultural/-/Projects/My-Primary-School-is-at-the-Museum>

ddealltwriaeth ddyfnach o'u cynulleidfaoedd iau, a oedd wedi eu galluogi i gynllunio a darparu rhaglenni mwy perthnasol, atyniadol. Yn achos yr ysgolion a'r athrawon, dangosodd y prosiect botensial creadigol mynd â dysgu i'r gymuned. Yn achos y myfyrwyr, roedd y rhain yn cynnwys: mwy o hyder, gwell sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu, a rhagor o ymgysylltiad â gofodau a lleoedd diwylliannol lleol, ynghyd ag ymdeimlad o fod yn 'berchen arnynt'. Mae'r dewis o weithgareddau dysgu yn ganolog i ganlyniadau dysgu, ond pa gymwyseddau EntreComp y gallai'r defnydd o amgylchedd dysgu gwahanol helpu i'w cefnogi?

- ⇒ Gweledigaeth – trwy i botensial manau dysgu gwahanol eu gwneud yn agored i bosibiliadau newydd
- ⇒ Gweithio gydag eraill – trwy'r profiad o gydweithredu â phobl newydd y tu hwnt i'w cyfoedion sy'n rhan o'r amgylchedd dysgu newydd/gwahanol
- ⇒ Ymdopi ag amwysedd, ansicrwydd a risg – trwy fod mewn amgylchedd newydd lle nad ydynt yn sicr o'r normau ymddygiad neu'r normau dysgu.

Gall addysgeg, er enghraifft dysgu seiliedig ar le ddarparu cyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio eu cymwyseddau entrepreneuriaidd yn y byd go iawn. Er enghraifft, gallai'r myfyrwyr archwilio sut y mae'r system drafnidiaeth leol yn gweithio a sut y gellid ei gwella. Mae datblygiad technolegau yn cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr gipio a dadansoddi data mewn ffyrdd dychmygus ac effeithlon. Mae dysgu seiliedig ar ddronau, er enghraifft, yn caniatáu i fyfyrwyr gael mynediad i leoedd a allai, fel arall, fod yn rhy anhygyrch neu'n beryglus. Trwy arloesi fel hyn, gall y myfyrwyr gynllunio llwybrau newydd a dehongli'r dirwedd i ennill dirnadaeth newydd.



Datblygu'r modd yr ydych yn defnyddio amser a gofod yn eich amgylcheddau dysgu

Mae'r modd yr ydych *chi* yn defnyddio amser a gofod yn ddangosyddion o'ch agweddau at yr amgylchedd *dysgu* – gweler y tabl isod. Mae'r rhain yn gamau ymarferol y gallwch eu cymryd i archwilio'r ffordd orau o ddefnyddio amser a gofod.

Defnyddio amser mewn modd gwahanol	Defnyddio gofod mewn modd gwahanol
Blocio cyfnodau o amser ar adegau penodol yn ystod y tymor i sicrhau gwaith mwy cynaliadwy mewn meysydd tebyg i ddysgu entrepreneuriaid.	Gofyn i'r myfyrwyr archwilio'r defnydd cyfredol o ofod yn yr ysgol. A allant ddod o hyd i ardaloedd posibl y gellid gwneud gwell defnydd ohonynt, er enghraifft trwy eu gwneud yn ganolfannau arloesi?
Cynnal wythnos arloesi neu fenter flynyddol, a gwahodd rhieni ac eraill i'r ysgol i weld y canlyniadau.	Ailosod byrddau, cypyrddau ffeilio, îsls a chypyrddau llyfrau i greu gofodau a lleoedd ar gyfer cymryd nodiadau, ymchwilio, tasgu syniadau ac arbrofi.
Gwneud defnydd o amserau anffurfiol yn ystod y dydd i dynnu sylw at gyfleoedd entrepreneuriaid, e.e. wrth sefyll yn y ciw cinio, yn ystod amserau egwyl, wrth aros am gludiant.	Os oes gennych fwrdd gwyn rhyngweithiol, myfyrwch ar ba mor dda y mae'n cael ei ddefnyddio gan y myfyrwyr, yn ogystal â chi eich hun.
Rhwydweithio ag ysgolion eraill, a chydweithio i gynnal digwyddiad.	Creu cyfleoedd i fyfyrwyr ddewis adnoddau a thasgau i'w cyflawni, ar yr amod bod y rhain yn cael eu defnyddio neu eu cwblhau cyn pen cyfnod amser penodol.
Gwneud cysylltiadau trawsgwricwlaidd priodol wrth gynllunio i ddangos sut y gellir integreiddio cymwyseddau entrepreneuriaid ar draws pynciau.	Yn hytrach nag aildrefnu dodrefn yn unig, rhoi ystyriaeth i ailgynllunio eich ystafell ddosbarth a'ch ysgol/coleg mewn modd radical. Gwahodd myfyrwyr i ddylunio cynllun i weddnewid yr ystafell ddosbarth neu'r ysgol, ac i awgrymu posibiliadau ar gyfer codi arian. Creu timau o benseiri sy'n fyfyrwyr.



Cynnal sgysiau gonest yn ystafell y staff ynghylch a oes unrhyw amser yn cael ei 'wastraffu' yn ystod y dydd.	Sicrhau bod yna ardaloedd tawel yn yr amgylchedd fel y gall y myfyrwyr ganolbwyntio. Cynnwys y myfyrwyr yn y broses o greu ac enwi'r ardal hon, e.e. 'Copa'r mynydd', 'Yr ogof', 'Yr encil', 'Y tân gwersyll'.
Ailasesu'r defnydd o amser yn ystod adegau amrywiol o'r dydd: cynnal astudiaeth amser a symud.	Dyrannu'r cyfrifoldeb am rannau gwahanol o amgylchedd yr ysgol i grwpiau o fyfyrwyr. Pa gyfleoedd y gallant eu gweld i wella'r defnydd o'r rhannau hynny?
Ymchwilio i fodolau gwahanol o ran trefnu'r amserlen	Cynllunio amgylchedd ystafell ddsbarth hyblyg i weddu i ddiben y dysgu, e.e. newid y trefniadau eistedd ar gyfer dysgu cydweithredol, hyfforddi unigol neu dasgau ymarferol.
Myfyrio ynghylch cyfnodau yn ystod y flwyddyn y gellid gwneud gwell defnydd ohonynt i ennyn diddordeb y myfyrwyr, e.e. yn syth ar ôl arholiadau.	Trafod â'r gymuned ehangach gyfleoedd rheolaidd i fyfyrwyr ddefnyddio lleoedd ar gyfer dysgu, e.e. amgueddfeydd, parciau, orielau, allfeydd adwerthu

Tabl 2.4. Defnydd creadigol o amser a gofod i gefnogi dysgu entrepreneuriaidd

Yr hyn sy'n wirioneddol bwysig mewn addysg entrepreneuriaeth yw galluogi a grymuso myfyrwyr i berchnogi eu hamgylchedd eu hunain. Mae hyn yn dechrau trwy roi cyfleoedd iddynt fel y gallant ddod o hyd i adnoddau a'u defnyddio mewn modd cyfrifol. Yn ystod prosiectau, mae angen i fyfyrwyr feithrin profiad o reoli a defnyddio amrywiaeth o adnoddau (llyfrau, deunydd ysgrifennu, deunyddiau gweledol, technolegau, gwrthrychau, cyllid, ei gilydd). Trwy brofiad a myfyrio rheolaidd, dylai'r myfyrwyr anelu at ddod yn hyderus ac yn fedrus wrth ddefnyddio adnoddau.

Gellir cyflawni hyn trwy sefydlu arferion rheolaidd yn rhan o fywyd yr ystafell ddsbarth, e.e. myfyrwyr yn gwybod beth a ddisgwyllir ganddynt wrth gasglu a dychwelyd adnoddau, neu'n amlygu menter pan nad oes adnodd ar eu cyfer. Gall



posteri ac arwyddion weithredu i'w hatgoffa o le y dylid gosod adnoddau ar ôl eu defnyddio, ac ynghylch y cyfrifoldebau y gall pawb eu hamlygu o ran gofal. Mae hyn yn cynnwys adnoddau ac achlysuron y tu allan i'r dosbarth, pan fydd y myfyrwyr yn ymweld â lleoedd.

A allwch ail-lunio eich amgylcheddau dysgu eich hun?

Gellir hefyd ail-lunio'r amgylchedd dysgu yr ydych yn ei ddefnyddio amlaf, sef ystafell ddosbarth yn ôl pob tebyg, i wella'r dysgu. Ond mae yna rwystrau i hyn yn aml oherwydd y gyllideb a'r adnoddau sydd ar gael.

Gallech gynnwys eich myfyrwyr mewn proses i ailgynllunio'r gyllideb. Gallai hyn helpu eich ysgol i ffocysu ar ddull sy'n canolbwyntio mwy ar y dysgwyr, gan greu ymdeimlad o gymuned o ran y gofod dysgu. Meddyliwch am brofiadau'r myfyriwr yn hytrach na'r gofod ffisegol neu'r dodrefn.

1. A yw'r dyluniad cyfredol wedi'i gynllunio i weithio ar gyfer yr ystafell neu'r myfyrwyr dan sylw?
2. Pa mor fawr yw gofod yr athro yn eich ystafell ddosbarth? Mewn rhai ystafelloedd dosbarth, gall y gofod ym 'mlaen' y dosbarth fod hyd at 25% o faint yr ystafell. Trwy newid hyn, byddwch yn agor rhagor o le i'r dysgwyr.
3. A yw cynllun y gofod yn eich helpu chi, yr addysgwyr, i ddatblygu dulliau dysgu entrepreneuriaidd, e.e. gwell cydweithio?
4. Sut y gwyddoch a yw dyluniad neu gynllun y gofod dysgu hwn yn gweithio i helpu eich addysgu? Peidiwch â newid pethau mewn modd radical cyn bod yn siŵr o'r modd y byddwch yn gwybod a fydd hyn yn gweithio ai peidio.

Dyma ychydig eiriau i'w hystyried a allai fod yn ddefnyddiol:

- **Hyblyg:** gellir gwneud newidiadau i'r gofod.

- **Ystwyth:** gellir ei newid yn gyflym fel ei fod yn addas ar gyfer profiadau dysgu gwahanol.
- **Bwriadol:** wedi'i gynllunio i gefnogi profiadau dysgu myfyrwyr.
- **Technolegol:** yn helpu i gefnogi neu gyflwyno technolegau gwahanol.

Gwyliwch Lene Jensby Lange yn siarad am syniadau i hacio eich gofod dysgu:

https://www.youtube.com/watch?v=-DgOCe2HbfU&feature=emb_logo

Mae'n dweud y byddai nifer o athrawon, o bosibl, yn dweud nad oes ganddynt yr arian i wneud unrhyw beth ynghylch eu gofodau dysgu, neu fod eu hystafell ddosbarth yn rhy fach i wneud dim yn ei chylch. Fodd bynnag, mae'n mynd ymlaen i ddweud nad y pethau y mae'n rhaid eu hychwanegu at y gofod, a'r holl bethau newydd y mae angen eu prynu, sy'n bwysig, ond yn hytrach yr hyn y mae'n ofynnol eu tynnu allan o'r ystafell, ynghyd â mynd ati i ailfeddwl am yr hyn y ceisir ei gyfathrebu o'r gofodau. Dywed y dylid edrych ar y gofod fel petai'n gyllell byddin y Swistir ar gyfer dysgu, gan feddwl beth y mae'n ofynnol ei wybod a sut y gellid newid hynny'n gyflym, ynghyd â sut y gellid creu lleoedd ystwyth ac addas i fod yn offeryn yn nwylo'r athro? Mae'n dweud y gellir yn aml dynnu rhywfaint o'r dodrefn allan ac y gellir rhoi ystyriaeth i'r coridorau, y corneli a'r islawr. Dywed fod gan bob ysgol y mae hi'n gwybod amdani ddodrefn nad ydynt yn cael eu defnyddio ac y gellid eu defnyddio mewn ffordd wahanol. Gallai'r myfyrwyr helpu i ail-greu ac ail-lunio'r dodrefn gan nad oes rhaid iddynt fod yn newydd – nid yw hynny'n bwysig o gwbl. Felly dywed bod angen edrych ar yr hyn sydd ar gael, a bod yn greadigol ac yn arloesol. Mae'n dweud mai'r rhan bwysicaf yw siarad am sut y dylai dysgu edrych yn eich ysgol.



TASG GRWP FFORWM 2.3: Egwyddorion Arweiniol

EntreCompEdu

Mae'r Fforwm Grŵp yn LoopMe yn ofod i gwrdd a myfyrio gyda chyfranogwyr eraill ar y cwrs. Ewch yno a rhannwch eich canlyniadau o'r dasg ganlynol

CYNLLUNIO: Cynlluniwch weithgaredd taflu syniadau syml gyda'ch myfyrwyr ynghylch sut i wella eu hamgylchedd dysgu – naill ai ar-lein neu yn yr ystafell ddosbarth.

Meddyliwch am y canlynol:

- Defnyddio manau ffisegol neu fannau/offer ar-lein gwahanol ar gyfer dysgu
- Helpu myfyrwyr i weithio gydag eraill mewn ffordd wahanol
- Defnyddio amser mewn modd gwahanol

ADRODDIAD GRWP FFORWM: Rhannwch gynllun eich gweithgaredd a chasglwch adborth yn y Fforwm Grŵp

Rhannwch eich casgliadau trwy'r ddolen **ADRODDIAD** yn y Grwp Fforwm yma:

Dolen:

TASG UNIGOL 2.3: Amgylchedd dysgu

GWEITHREDU: Rhowch eich cynllun ar waith yn un o'r ffyrdd canlynol:

1. Ewch ati i gynnal y gweithgaredd hwn gyda chyd-weithiwr – rhannwch syniadau ynghylch sut i greu amgylchedd dysgu grymusol.
2. Ewch ati i gynnal y gweithgaredd taflu syniadau hwn gyda'ch dysgwyr. Rhannwch y tri syniad mwyaf poblogaidd â'ch dysgwyr, e.e. trwy ddefnyddio dull pleidleisio syml.

MYFYRIO: Myfyriwch ar y profiad.

- Beth a oedd i'w ddisgwyl?
- Beth a oedd yn annisgwyl?
- Pa syniadau y gallech eu defnyddio?

ADRODDIAD HYFFORDDWR - Rhannwch eich myfyrdodau â'ch hyfforddwr yma yn LoopMe - cliciwch

ADRODDIAD HYFFORDDWR - Rhannwch eich myfyrdodau â'ch hyfforddwr yma yn LoopMe - cliciwch ar y botwm 'Adroddiad' isod.

